OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2018 Rhif 558 (Cy. 97)

ADEILADU AC ADEILADAU, CYMRU

Rheoliadau Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio) (Adeiladau Ynni a Eithrir) (Cymru) 2018

Gwnaed - - - -	*30 Ebrill 2018*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*4 Mai 2018*
Yn dod i rym - -	*8 Mehefin 2018*

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â dylunio ac adeiladu adeiladau ac mewn perthynas â gwasanaethau, ffitiadau a chyfarpar a ddarperir yn yr adeiladau hynny neu mewn cysylltiad â hwy.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, ac i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 1, 1A, 2, 2A, 3, 16, 17, 34, 35, 47, 49, 50, 51, 51A, 52 a 54 o Ddeddf Adeiladu 1984(**3**) a pharagraffau 1, 2, 4, 4A, 6, 7, 8 a 10 o Atodlen 1 iddi, a pharagraffau 2 a 3 o Atodlen 4 iddi, sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**4**), ar ôl ymgynghori â Phwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu a'r cyrff eraill hynny yr ymddengys iddynt hwy eu bod yn cynrychioli'r materion dan sylw yn unol ag adran 14(7) o'r Ddeddf honno(**5**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

(**1**) O.S. 2016/161.

(**2**) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) ac adran 3 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7) a Rhan 1 o'r Atodlen i'r Ddeddf honno.

(**3**) 1984 p. 55. Diwygiwyd adran 1 gan adran 1 o Ddeddf Adeiladau Cynaliadwy a Diogel 2004 (p. 22) ("Deddf 2004"); mewnosodwyd adrannau 1A a 2A gan adrannau 2 a 4 o Ddeddf 2004 yn y drefn honno; diwygiwyd adran 16 gan Ddeddf Cyfraith Statud (Diddymiadau) 1993 (p. 50), diwygiwyd adrannau 47 a 52 gan O.S. 1996/1905 ac adran 8 o Ddeddf 2004; diwygiwyd adrannau 50 a 51 gan O.S. 1996/1905, a mewnosodwyd adran 51A gan yr O.S. hwnnw; mewnosodwyd paragraff 4A yn Atodlen 1 gan adran 8 o Ddeddf 2004; diwygiwyd paragraff 7 o Atodlen 1 gan adran 3 o Ddeddf 2004 a chan adran 11 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd ac Ynni Cynaliadwy 2006 (p. 19); a diwygiwyd paragraff 8 o Atodlen 1 gan adran 3 o Ddeddf 2004 ac adran 40 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (p. 29).

(**4**) Cafodd y swyddogaethau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol neu a osodwyd arno gan Ddeddf Adeiladu 1984 ("Deddf 1984") neu oddi tani, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru gan Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2009 (O.S. 2009/3019) ("Gorchymyn 2009") yn ddarostyngedig i erthyglau 3 a 4 o'r Gorchymyn hwnnw. Roedd erthygl 3(a) o Orchymyn 2009 yn darparu nad oedd swyddogaethau wedi eu trosglwyddo i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas ag adeilad ynni a eithrir fel y'i diffinnir gan yr Atodlen i'r Gorchymyn hwnnw. Dileodd adran 54 o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4) yr eithriad hwn drwy wneud y ddarpariaeth angenrheidiol ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau o dan Ddeddf 1984 ar gyfer y categori hwnnw o adeiladau.

(**5**) Ychwanegwyd adran 14(7) gan Orchymyn 2009.